**Llywodraeth Cymru**

***'Gofal Iechyd Parhaus y GIG – Y Fframwaith Gweithredu Cenedlaethol yng Nghymru'* (2021) - Datganiad Polisi Dros Dro**

I'w roi ar waith Ebrill 2026

## Cyflwyniad

Cyhoeddwyd **'***Gofal Iechyd Parhaus y GIG – Y Fframwaith Gweithredu Cenedlaethol yng Nghymru'* (2021) - Fframwaith GIP – ym mis Gorffennaf 2021 ac roedd i'w weithredu o 1 Ebrill 2022. Mae'r ddogfen hon yn nodi polisi Llywodraeth Cymru ar gymwysedd i gael Gofal Iechyd Parhaus (GIP) a chyfrifoldebau sefydliadau'r GIG ac Awdurdodau Lleol, gan nodi'r trefniadau ar gyfer darparu Gofal Iechyd Parhaus yng Nghymru mewn modd effeithiol, effeithlon a theg.

## Pwrpas y ddogfen hon

Pwrpas y datganiad polisi dros dro hwn yw darparu diweddariad i'r Fframwaith GIP i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol, yn benodol mewn perthynas â Thaliadau Uniongyrchol a GIP. Mae hyn yn dilyn Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2026 yn dod i rym, a chyhoeddi canllawiau statudol ar ddeall a chymhwyso'r rheoliadau hyn.

Dylid ystyried y diwygiadau hyn i Fframwaith GIP 2021 ochr yn ochr â'r Fframwaith llawn.

Daw'r diwygiadau i rym o 1 Ebrill 2026. Fe'u darperir er mwyn sicrhau bod y Fframwaith GIP yn cyd-fynd â'r Rheoliadau a'r canllawiau, cyn adolygiad llawn o'r Fframwaith GIP.

## Diweddariadau

Gwneir diwygiadau i'r adrannau canlynol o Fframwaith GIP (2021):

**Tabl diweddariadau**

| Adran yn y Fframwaith | Testun presennol | Testun diwygiedig |
|---|---|---|
| Adran 2 – Egwyddor 6: Gofal cydgysylltiedig â pharhad, Para 2.10 | "Pan ddaw unigolyn y trefnwyd ei ofal drwy Daliadau Uniongyrchol yn gymwys i gael arian GIP, rhaid i'r Bwrdd iechyd gydweithio af ef gyda'r bwriad o gyd-gynhyrchu a gwneud pob ymdrech i gynnal parhad y personél sy'n | "Pan ddaw unigolyn y trefnwyd ei ofal drwy Daliadau Uniongyrchol gofal cymdeithasol yn gymwys i gael arian GIP, rhaid i'r Bwrdd iechyd gydweithio af ef gyda'r bwriad o gyd-gynhyrchu a gwneud pob ymdrech i gynnal parhad y |

| | | |
|---|---|---|
| | darparu'r gofal, os yw'r unigolyn yn dymuno hynny, fel y nodir yn Adran 5." | personél sy'n darparu'r gofal, os yw'r unigolyn yn dymuno hynny, fel y nodir yn Adran 5." |
| Paragraffau 2.48, 5.18 a 5.42 | Para 2.48<br>"Ar ôl i asesiad ganfod bod gan unigolyn angen iechyd sylfaenol a'i fod, felly,yn gymwys i gael GIP, mae'r GIG yn gyfrifol am ariannu'r pecyn iechyd a gofal cymdeithasol llawn. Pan fo'r unigolyn yn byw gartref, nid yw hyn yn cynnwys costau llety, bwyd na cymorth cyffredinol yn y cartref.<br><br>Para 5.18<br>"Pan fydd unigolyn yn dychwelyd i'w gartref ei hun (neu gartref gofalwr), bydd y BILI yn talu cost ei anghenion iechyd a gofal personol yn llawn ond ni fydd yn talu am y llety, y bwyd na'r cymorth cyffredinol yn y cartref."<br><br>Para. 5.42<br>"Os bydd unigolyn yn gymwys i gael GIP a'i fod yn dewis byw yn ei gartref ei hun, bydd y BILI yn gyfrifol am dalu am yr holl anghenion iechyd a gofal cysylltiedig a aseswyd. Nid yw hyn yn cynnwys cost llety, bwyd na chymorth cyffredinol i'r cartref.<br>Mae amrywiaeth o gostau cartref beunyddiol y disgwylir | Para 2.48<br>"Ar ôl i asesiad ganfod bod gan unigolyn angen iechyd sylfaenol a'i fod, felly,yn gymwys i gael GIP, mae'r GIG yn gyfrifol am ariannu'r pecyn iechyd a gofal cymdeithasol llawn. Pan fo'r unigolyn yn byw gartref, nid yw hyn yn cynnwys costau llety, bwyd na cymorth cyffredinol yn y cartref (ac eithrio mewn achosion lle byddai'r cymorth hwnnw'n ffurfio rhan o anghenion iechyd a gofal cymdeithasol asesedig yr unigolyn fel y nodir yn ei gynllun gofal)."<br><br>Para 5.18<br>"Pan fydd unigolyn yn dychwelyd i'w gartref ei hun (neu gartref gofalwr), bydd y BILI yn talu cost ei anghenion iechyd a gofal personol yn llawn ond ni fydd yn talu am y llety, y bwyd na'r cymorth cyffredinol yn y cartref (ac eithrio mewn achosion lle byddai'r cymorth hwnnw'n ffurfio rhan o anghenion iechyd a gofal cymdeithasol asesedig yr unigolyn fel y nodir yn ei gynllun gofal)."<br><br>Para. 5.42<br>"Os bydd unigolyn yn gymwys i gael GIP a'i fod yn dewis byw yn ei gartref ei hun, bydd y BILI yn gyfrifol am dalu am yr holl anghenion iechyd a gofal cysylltiedig a aseswyd. Nid yw hyn yn cynnwys cost llety, bwyd na chymorth cyffredinol i'r cartref (ac eithrio mewn achosion lle byddai'r cymorth hwnnw'n ffurfio rhan o anghenion iechyd a gofal |

| | | |
|---|---|---|
| | iddynt gael eu talu gan incwm personol neu drwy fudd-daliadau lles gan gynnwys bwyd, rhent/llog morgais, tanwydd a dŵr, dillad neu eitemau cyffredin eraill i'r cartref. | cymdeithasol asesedig yr unigolyn fel y nodir yn ei gynllun gofal). Mae amrywiaeth o gostau cartref beunyddiol y disgwylir iddynt gael eu talu gan incwm personol neu drwy fudd-daliadau lles gan gynnwys bwyd, rhent/llog morgais, tanwydd a dŵr, dillad neu eitemau cyffredin eraill i'r cartref." |
| Adran 5 – Llais a Rheolaeth, Taliadau Uniongyrchol a GIP, Paragraff 5.50 | "Ar hyn o bryd, mae'n anghyfreithlon defnyddio Taliadau Uniongyrchol i brynu gofal iechyd y mae'r GIG yn gyfrifol am ei ddarparu. Fodd bynnag, nid yw'n anghyfreithlon i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gydweithio i roi llais a rheolaeth i unigolion mewn perthynas â'u hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol." | "Disgwylir i awdurdodau lleol a byrddau iechyd weithio gyda'i gilydd i ddarparu llais a rheolaeth i unigolion mewn perthynas â'u hanghenion gofal iechyd a gofal cymdeithasol." |
| Adran 5 – Llais a Rheolaeth, Taliadau Uniongyrchol a GIP, Paragraff 5.52 | "Pan ddaw unigolyn y trefnwyd ei ofal gan ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol yn gymwys i gael arian GIP, rhaid i'r BILl gydweithio ag ef. Er na fydd Taliadau Uniongyrchol yn gymwys mwyach os oes gan unigolyn angen iechyd sylfaenol, ni ddylai hyn olygu bod yr unigolyn yn colli ei lais, ei ddewis na'i reolaeth dros ei fywyd bob dydd." | "Pan ddaw unigolyn y trefnwyd ei ofal gan ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol gofal cymdeithasol yn gymwys i gael arian GIP, rhaid i'r BILl gydweithio ag ef. Er na fydd Taliadau Uniongyrchol yn gymwys mwyach os oes gan unigolyn angen iechyd sylfaenol, ni ddylai hyn olygu bod yr unigolyn yn colli ei lais, ei ddewis na'i reolaeth dros ei fywyd bob dydd." |
| Adran 5 – Llais a Rheolaeth, Taliadau Uniongyrchol a GIP, Paragraff 5.53 | "Dylai BILlau ystyried amrywiaeth o opsiynau i sicrhau llais a rheolaeth i'r unigolyn, gan gynnwys y canlynol: | Paragraff newydd i'w ychwanegu o'r enw 'Taliadau Uniongyrchol', cyn y paragraff 'Cynnal personél'<br><br>"Taliadau Uniongyrchol<br><br>Gweler ganllawiau ar wahân – ***'Canllawiau ar Daliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG: Deall y*** |

| | | |
|---|---|---|
| | -Cynnal personél<br><br>Pan fydd unigolyn yn datblygu angen gofal iechyd sylfaenol, rhaid i'r bwrdd iechyd weithio i gynnal parhad personél sy'n darparu gofal, os yw'r unigolyn yn dymuno i hyn ddigwydd ac y gall hyn gyfrannu at ddiwallu ei anghenion. Gallai'r bwrdd iechyd gyflogi staff (naill ai'n uniongyrchol neu drwy asiantaeth), e.e. cynorthwywyr personol, a gyflogwyd yn flaenorol gan yr unigolyn o dan daliadau uniongyrchol.<br><br>- Ymddiriedolaethau Defnyddwyr Annibynnol<br><br>Gallai byrddau iechyd hefyd ystyried darparu cyllid i Ymddiriedolaeth Defnyddwyr Annibynnol, i reoli gofal unigolyn. Dyma sefyllfa lle mae perthynas i glaf neu rywun arall â diddordeb yn sefydlu ymddiriedolaeth sy'n dod yn ddarparwr gofal i'r unigolyn. Yna, mae'r BILI yn contractio â'r ymddiriedolaeth i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd penodedig i'r unigolyn. | ***Rheoliadau'"***<br><br>- Cynnal personél<br><br>Pan fydd unigolyn yn datblygu angen gofal iechyd sylfaenol, rhaid i'r bwrdd iechyd weithio i gynnal parhad personél sy'n darparu gofal, os yw'r unigolyn yn dymuno i hyn ddigwydd ac y gall hyn gyfrannu at ddiwallu ei anghenion. Gallai'r bwrdd iechyd gyflogi staff (naill ai'n uniongyrchol neu drwy asiantaeth), e.e. cynorthwywyr personol, a gyflogwyd yn flaenorol gan yr unigolyn o dan daliadau uniongyrchol gofal cymdeithasol, os nad yw taliad uniongyrchol o dan GIP yn briodol, neu os nad yw'r unigolyn yn ei ffafrio.<br><br>- Ymddiriedolaethau Defnyddwyr Annibynnol<br><br>Gallai byrddau iechyd hefyd ystyried darparu cyllid i Ymddiriedolaeth Defnyddwyr Annibynnol, i reoli gofal unigolyn. Dyma sefyllfa lle mae perthynas i glaf neu rywun arall â diddordeb yn sefydlu ymddiriedolaeth sy'n dod yn ddarparwr gofal i'r unigolyn. Yna, mae'r BILI yn contractio â'r ymddiriedolaeth i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd penodedig i'r unigolyn. |
| Adran 5 – Llais a Rheolaeth, Taliadau Uniongyrchol | "Efallai y bydd amgylchiadau lle mae'n bosibl i unigolyn gadw rhywfaint o Daliad Uniongyrchol am yr elfennau o'i ofal y mae'r awdurdod lleol yn dal i fod yn gyfrifol | Mae'r paragraff hwn o'r Fframwaith yn cael ei dynnu'n ôl dros dro er mwyn ystyriaeth bellach. Ni fwriedir unrhyw |

| | | |
|---|---|---|
| a GIP, Paragraff 5.54 | amdanynt, e.e. cyfleoedd i gynhwysiant cymdeithasol. Rhaid i sefydliadau partner weithio gyda'i gilydd i archwilio'r holl opsiynau sydd ar gael i wneud y mwyaf o annibyniaeth unigolyn.” | effaith ar drefniadau presennol unigolion. |
| Adran 5 – Llais a Rheolaeth, Taliadau Uniongyrchol a GIP, Paragraff 5.56 | “Mae unigolyn sy'n cael Taliadau Uniongyrchol (neu unrhyw unigolyn) yn cadw'r hawl i wrthod cydsynio i asesiad GIP a/neu becyn gofal, fel y nodir yn Adran 3. Mewn achosion o'r fath, rhaid i asiantaethau partner gydweithio â'r unigolyn a'i deulu/gofalwyr i sicrhau bod y risgiau'n cael eu deall a'u lliniaru'n llawn cyn belled ag y bo modd. Os asesir bod person yn gymwys i gael GIP ond ei fod yn gwrthod pecyn gofal, gall fod effaith ar y ffordd y caiff ei ofal ei ddarparu. Ni ellir tybio'n awtomatig y bydd ALlau yn parhau i ddarparu'r gwasanaethau hynny, gan y gallai hyn olygu eu bod yn gweithredu y tu allan i'w hawdurdod cyfreithiol.” | “Mae unrhyw unigolyn sy'n cael Taliadau Uniongyrchol (neu unrhyw unigolyn) yn cadw'r hawl i wrthod cydsynio i asesiad GIP a/neu becyn gofal, fel y nodir yn Adran 3. Mewn achosion o'r fath, rhaid i asiantaethau partner gydweithio â'r unigolyn a'i deulu/gofalwyr i sicrhau bod y risgiau'n cael eu deall a'u lliniaru'n llawn cyn belled ag y bo modd. Os asesir bod person yn gymwys i gael GIP ond ei fod yn gwrthod pecyn gofal, gall fod effaith ar y ffordd y caiff ei ofal ei ddarparu. Ni ellir tybio'n awtomatig y bydd ALlau yn parhau i ddarparu'r gwasanaethau hynny, gan y gallai hyn olygu eu bod yn gweithredu y tu allan i'w hawdurdod cyfreithiol.” |
| Adran 5 – Pecynnau Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y cyd, Paragraff 5.64 | “Fel mater o egwyddor, os oes gan unigolyn drefniadau Taliadau Uniongyrchol ar hyn o bryd, dylai'r rhain barhau lle bynnag y bo modd ac am gyn belled ag y bo modd o fewn pecyn gofal ar y cyd wedi'i deilwra.” | “Fel mater o egwyddor, os oes gan unigolyn drefniadau Taliadau Uniongyrchol gofal cymdeithasol ar hyn o bryd, dylai'r rhain barhau lle bynnag y bo modd ac am gyn belled ag y bo modd o fewn pecyn gofal ar y cyd wedi'i deilwra.” |
| Adran 6 – Trosglwyddo o ddarpariaeth i Blant a Phobl Ifanc i Ddarpariaeth i | “Rhaid i'r goblygiadau ariannol i'r person ifanc a'i deulu, gan gynnwys unrhyw newidiadau i fudd-daliadau neu ffynonellau ariannu eraill fel Taliadau Uniongyrchol, gael eu hesbonio'n glir cyn gynted â phosibl. Dylai dewisiadau o | “Rhaid i'r goblygiadau ariannol i'r person ifanc a'i deulu, gan gynnwys unrhyw newidiadau i fudd-daliadau neu ffynonellau ariannu eraill fel Taliadau Uniongyrchol gofal cymdeithasol, gael eu hesbonio'n glir cyn gynted â |

| | | |
|---|---|---|
| Oedolion, Paragraff 6.26 | ran llety a byw'n annibynnol eu hystyried yn llawn, a dylid esbonio hawliau ac opsiynau'n glir. Rhaid i'r cynllun gofal gynnwys cymorth i ofalwyr, yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant." | phosibl. Dylai dewisiadau o ran llety a byw'n annibynnol eu hystyried yn llawn, a dylid esbonio hawliau ac opsiynau'n glir. Rhaid i'r cynllun gofal gynnwys cymorth i ofalwyr, yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant." |
| **Geirfa**<br><br>(gweler hefyd paragraffau 2.48, 5.18 a 5.42) | Cymorth Cyffredinol yn y Cartref<br><br>"Gwasanaethau megis glanhau, golchi dillad, paratoi prydau bwyd, siopa, coginio, casglu budd-daliadau, eistedd gyda'r unigolyn neu fynd gydag ef ar weithgareddau cymdeithasol" | Cymorth Cyffredinol yn y Cartref<br><br>"Gwasanaethau megis glanhau, golchi dillad, paratoi prydau bwyd, siopa, coginio, casglu budd-daliadau, eistedd gyda'r unigolyn neu fynd gydag ef ar weithgareddau cymdeithasol"<br><br>Sylwer bod cyfeiriadau at eithrio mathau penodol o gymorth cyffredinol yn y cartref i'w darllen fel nad ydynt yn berthnasol mewn achosion lle byddai'r cymorth hwnnw'n ffurfio rhan o anghenion iechyd a gofal cymdeithasol asesedig yr unigolyn fel y nodir yn ei gynllun gofal. Gweler hefyd paragraffau 2.48, 5.18 a 5.42." |

**Dolenni allweddol:**

***'Gofal Iechyd Parhaus y GIG – Y Fframwaith Gweithredu Cenedlaethol yng Nghymru' (2021):***

[Fframwaith cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG | LLYW.CYMRU]